

Film
CYMRU WALES



ADRODDIAD

BLYNYDDOL

2018-19

 Awarding funds from
THE NATIONAL LOTTERY®

CYNNWYS

- 04 CROESO'R CADEIRYDD
- 06 CRYNODEB
- 10 TALENT | BFI NETWORK CYMRU
- 12 TALENT | DATBLYGU
- 14 TALENT | CYNHYRCHU
- 16 HYFFORDDIANT
- 18 MYNEDIAD I GYNULLEIDFAOEDD
- 20 ADDYSG FFILM
- 22 DYFARNIADAU CYLLIDO | BFI NETWORK CYMRU
- 24 DYFARNIADAU CYLLIDO | DATBLYGU
- 25 DYFARNIADAU CYLLIDO | CYNHYRCHU
- 26 DYFARNIADAU CYLLIDO | MYNEDIAD I GYNULLEIDFAOEDD
- 27 DYFARNIADAU CYLLIDO | ADDYSG FFILM
- 28 CRYNODEB ARIANNOL
- 30 EIN TÎM

Billie Piper yn ei dylwythen gyfarwyddiadol *Rare Beasts*

Dyma fy mlwyddyn gyntaf fel Cadeirydd Ffilm Cymru Wales ac 'rwy'n ddiolchgar i'r Cyn-gadeirydd, Michael Gubbins, y Prif Weithredwr, Pauline Burt, ac i weddill aelodau'r Bwrdd am hwyluso'r ffordd wrth i mi gymryd awenau'r swyddogaeth hon. Ac 'rydw i wrth fy modd yn cael croesawu aelod diweddaraf ein Bwrdd, Lia Kelly, sy'n ymuno â ni o gynllun Arts and Business Cymru ar gyfer Pobl Ifanc ar Fyrddau. Mae ein Bwrdd yn adlewyrchu amrediad eang o sgiliau, diddordebau a chefnidiroedd, yn union fel y dylai wneud.

Mae diwydiannau'r sgrin ledled y byd mewn cyfnod cythryblus. Mae'r dechnoleg newydd yn herio gwneuthurwyr ffilm i adrodd eu straeon mewn fformatau gwahanol, yn ogystal ag ar lwyfannau sydd eisoes yn bodoli. Mae holl fusnes gwneud ffilm hefyd yn newid gan fod angen ffurfiau cyd-gynhyrchu mwy cymhleth ar gyfer mynd i'r afael â ffiniau tiriogaethol. Mae cynulleidfaoedd hefyd am gael mynediad at ffilm mewn nifer o leoliadau amrywiol, fel rhan o wyliau, yn eu cymuned eu hunain ac ar sgriniau bach a mawr. Dyna pam 'rydym yn dal i gefnogi mynediad at ffilmiau Saesneg a Chymraeg ledled Cymru, gyda chynulleidfaoedd yn ganolbwynt i'n polisiau.

Mae ffilm yn perthyn i bawb; mae'n rhaid i ffilm adrodd stori pob un ohonom. Dylai cynulleidfaoedd fod wrth galon unrhyw ddatblygiad. Yn Ffilm Cymru dyna sy'n gyrru'r gefnogaeth 'rydym yn ei rhoi i amrywiaeth o dalentau a ffilmiau – ffilmiau nodwedd a ffilmiau byrion – o'r cyfnod datblygu hyd at y cyfnod cynhyrchu. Er enghraifft, mae ein rhaglen arloesol Hatch wedi ei chynllunio i wella'r gefnogaeth ar gyfer ffilmiau byw (live-action) i'r teulu, gan roi rhagor o wybodaeth i gynhyrchwyr o'r hyn mae cynulleidfaoedd teuluol ei angen a'i fwynhau.

Nid i garfan fechan o bobl yn unig mae ffilm yn perthyn. Mae hyn yn golygu ehangu'r diwydiant ffilm fel bod pawb sydd tu ôl i'r camera'n adlewyrchu Cymru gyfan. Felly, 'rwy'n hynod falch o raglen Ffilm Cymru Foot in the Door, sy'n cynnig hyfforddiant a chyfleoedd gwaith i bobl ledled Cymru, pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Ym Mehefin 2019 bu i ni ddathlu'r rhaglen hon yng nghwmni ein partneriaid y Cymdeithasau Tai, y Dirprwy Weinidog Lee Waters AS, y cyfarwyddwr Euros Lyn (Y Llyfrgell/ The Library Suicides; Dream Horse; His Dark Materials), ac yn bwysicach oll, cyfranogwyr y rhaglen. Maent yn eiriolwyr ysbrydoledig ar gyfer sut mae cael cyfle i weithio ar set yn gallu newid bywydau. Ym mhedwar ban byd mae pobl yn siarad am newid y diwydiant ffilm. Yma yng Nghymru, 'rydym eisoes yn gwneud hynny.

Yn ystod y deuddeg mis diwethaf mae sawl datblygiad arwyddocaol wedi digwydd i ddiwylliant sgrin Cymru. Bu i'r Senedd dynnu ar dystiolaeth arbenigol Ffilm Cymru ar gyfer ei Ymchwiliad i Gynhyrchu Ffilm a Rhaglenni Teledu Aruchel. Bu i ni gyfrannu i gyfarfodydd rhan-ddeiliaid a gynhaliwyd gyda Llywodraeth Cymru wrth iddynt gynllunio ar gyfer Cymru Greadigol, ac edrychwn ymlaen at weld sut fydd pethau'n datblygu.

Mae Ffilm Cymru hefyd wedi dadlau'n gyson am bwysigrwydd arloesi ym maes busnes ffilm ac o ran canolbwyntio ar y gynulleidfa, a hynny yn fuan iawn yn ystod y cyfnod datblygu. Dyma yw sail ein cynllun Magnifier – sydd ar ei bedwaredd flwyddyn ar hyn o bryd - felly 'rydym wrth ein bodd fod Clwstwr, partneriaeth rhwng tair o brifysgolion Caerdydd a diwydiannau'r sgrin, wedi denu rhagor o nawdd er mwyn hybu arloesedd yn niwydiannau sgrin y brifddinas.

Mae partneriaethau a chyd-weithio'n greiddiol i'n DNA. Fel Cadeirydd 'rwyf wedi ymrywmo i sicrhau ein bod yn gweithio gyda'n partneriaid ar draws y diwydiant, y celfyddydau a'r gymdeithas ddinesig er mwyn adeiladu diwylliant ffilm cynaliadwy, creadigol a chynhwysol yng Nghymru. Edrychwn ymlaen at weithio gyda nifer o bartneriaid – hen a newydd- dros y 12 mis nesaf a thu hwnt.

YR ATHRO RUTH MCELROY
Cadeirydd



35

FFILM
NODWEDD
WEDI EU HARIANNU



143

GWNEUTHURWR FFILM
WEDI EU CEFNOGI



204

WEDI DERBYN
HYFFORDDIANT

MAE'R GWNEUTHURWYR FFILM A ARIANWYD GAN FFILM CYMRU YN YMARDDEL FEL:

	MENYWOD	ANABL	BAME	LGBT+	YN SIARAD CYMRAEG	DAN ANFANTAIS CYMDEITHASOL-ECONOMAIDD
CYFANSWM	51%	8%	15%	18%	30%	10%
BFI NETWORK	57%	14%	14%	27%	41%	5%
DATBLYGU	52%	2%	18%	8%	22%	16%
CYNHYRCHU	34%	0%	13%	6%	6%	13%
TARGED**	50%	7%	5%	10%	19%	15%

**Mae targedau yn cael eu llywio gan ddata sensws Cymru.

35

O NEWYDD-DDYFODIAID WEDI CAMU



TROED
YN Y
DRWS

94%

HEB FOD MEWN
ADDYSG NA
CHYFLOGAETH
REOLAIDD

41% O'R SAWL A YMATEBODD WEDI YMARDDEL
EU BOD YN BYW AG ANABLEDD NEU NAM

MAE RHAGOR O WYBODAETH
AR GAEL YN EIN CYNLLUN
GWEITHREDU CYDRADDOLDEB,
AMRYWIAETH A CHYNHWYSIAD



% o wneuthurwyr ffilm a ymatebodd i'n ffurflen monitro CAC (EDI). Ble mae un person yn cyflawni mwy nag un swyddogaeth ar ffilm (e.e. awdur/cyfarwyddwr), cânt eu cyfrif ddwywaith yn y swyddogaeth benodol, a chyfanswm eu swyddogaethau, ond nid yn y tîm ei hun. Os oes mwy nag un cynhyrchydd arweiniol, cyfarwyddwr arweiniol neu awdur arweiniol, cânt eu cyfrif mewn swyddogaeth benodol, cyfanswm y swyddogaethau ac yn y tîm ei hun. Pan nad oes awdur, cynhyrchydd na gyfarwyddwr nid ydynt yn cael eu cyfrif. Ni gofnodir swyddogaethau bychan, swyddogaethau cefnogol nag uwch gynhyrchwyr. Mae'r ffigyrau hyn yn berthnasol i ddyfarniadau yn hytrach nag i brosiectau neu brosiectau a dalwyd allan arnynt, felly bydd nifer o ddyfarniadau wedi eu gwneud ar gyfer yr un prosiect yn y data hwn, yn ogystal â phrosiectau a gafodd eu hail-gylchu yn rhannol neu'n gyflawn yn ddiweddarach. Hysbysir ein targedau gan ddata sensws Cymru.

1,510 O FFILMIAU WEDI EU DANGOS I

319,520

O BOBL YM MHOB CWR O GYMRU

MEWN SINEMÂU, MEWN GWYLIAU AC MEWN DANGOSIADAU CYMUNEDOL

CASGLWYD MUY NA **£1.4m** YN Y SWYDDFA DOCYNNAU

TARGEDWYD RHAGLENNI YN ARBENNIG AT



CYNULLEIDFAOEDD BAME
6,752 MYNEDIADAU
287 DANGOSIADAU



CHYNULLEIDFAOEDD ANABL
5,028 MYNEDIADAU
136 DANGOSIADAU



CYNULLEIDFAOEDD LGBT+
20,532 MYNEDIADAU
284 DANGOSIADAU



CYNULLEIDFAOEDD
FFILMIAU CYMRAEG
16,134 MYNEDIADAU
350 DANGOSIADAU

CYFRANOGWYR ADDYSG FFILM

774

O BOBL O BOB OED A GALLU
YMWNEUD Â DYSGU CREADIGOL

58% YN ARDDEL EU BOD YN FENYWOD

18% YN ARDDEL EU BOD YN BAME

6% YN ARDDEL EU BOD YN BYW AG ANABLEDD


57% O ARDALOEDD Y
CYMUNEDAU YN GYNTAF BLAENOROL

6

PROSIECT ADDYSG FFILM
RANNU **£38,042.50**

4

PROSIECT
YMGYSYLLTU
Â CHYMUNEDAU
GWLEDIG



% o'r cyllid

Mae Ffilm Cymru yn cefnogi gwneuthurwyr ffilm i wireddu eu huchelgais greadigol drwy ddarparu arian, cynnig arweiniad gyrfao, a chyfleoedd mentora drwy ein rhaglenni BFI NETWORK.

Bu i Beacons, ein cronfa ariannol ar gyfer ffilmiau byrion, mewn partneriaeth â BBC Cymru Wales, gefnogi 11 prosiect newydd gan dargedu datblygu sgript, cyn i saith ohonynt fynd yn eu blaen i gael eu cynhyrchu. Mae'r cnwd newydd yma o ffilmiau byrion yn adlewyrchu lleisiau arbennig a gweledigaeth eang y dalent newydd sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru, gan gynnwys:

- *Mist*, drama Zillah Bowes a leolir yng Nghanolbarth Cymru ac a gynhyrchwyd drwy gwmni Ken Loach, Sixteen Films;
- *Takeshi*, rhaglen ddogfen Griff Lynch sy'n dilyn darlithydd o Siapan sydd â chariad angerddol ac anghyffredin tuag at ddiwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg;
- *Leaf Boat* gan Efa Blossie-Mason – ffilm wedi ei hanimeiddio am ofn, cariad hoyw a chwch wedi'i wneud o ddail.

Horizons yw ein cronfa hyblyg a chyflym sy'n meithrin talent newydd a thalent sy'n dod i'r amlwg, sy'n teilwra cefnogaeth i brosiectau unigol, ac sy'n hybu datblygiad gyrfaoedd. Bu i ddyfarniadau ariannol eleni ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus roi cyfle i wneuthurwyr ffilm fynychu gwyliau a digwyddiadau hyfforddi ledled Ewrop, gan eu galluogi i greu cysylltiadau ac i ddysgu gan arbenigwyr rhyngwladol. Bu i'r gefnogaeth gafodd Claire Fowler ei galluogi i fynychu Gŵyl Ffilm y BFI Llundain ym mis Hydref 2018 gyda'i ffilm fer, *Salam*, a gafodd ei dangos am y tro cyntaf yn Tribeca yn gynharach eleni; bu i'r artist a'r gwneuthurwr ffilm Tina Pasotra gyflwyno ei ffilm fer, *I Choose*, a ariannwyd drwy gynllun Beacons, ym Marchnad Ffilmiau Byrion Clermont-Ferran; a bu i Ila Mehrotra ddatblygu ei ffilm ddogfen nodwedd, *Hijra*, ymhellach yn ystod menter hyfforddi EsoDoc yn Norwy, a chael cyfleoedd pellach i gyflwyno'r ffilm yn Sheffield Doc/Fest.

Bu i gronfa Horizons hefyd ddarparu grantiau i gefnogi talentau newydd o Gymru wrth iddynt greu eu ffilmiau nodwedd cyntaf:

- *Clapham Trashbag*, addasiad sinematig Peter Darney o'i ddrama *Five Guys Chillin'*, sy'n archwilio 'chemsex' yn y gymuned hoyw;
- Mae'r awdur Crystal Jeans yn addasu ei nofel *Vegetarian Tigers of Paradise* ar gyfer ffilm – stori garu ddoniol rhwng mam a merch, mewn iaith gref;
- Ffilm arswyd seicolegol yr Awdur-Gyfarwyddwr Ozgur Uyanik, *Holy Men*, sy'n dilyn newyddiadurwraig deledu o Dwrci wrth iddi geisio datgelu bwriwr cythreuliaid (exorcist) Islamig ffug.

Bu i BFI NETWORK Cymru gyrraedd nifer fawr o wneuthurwyr ffilm uchelgeisiol drwy gynnal digwyddiadau hyfforddi ymarferol fel y 'Filmmakers' Survival Guide'; dosbarth meistr sgript yng nghwmni Kate Leys; a chyfres o gymorthfeydd wyneb yn wyneb sy'n cael eu cynnal ym mhob cwr o'r wlad.



Leaf Boat ffilm fer animeiddiedig
Efa Blossie Mason

TALENT
BFI NETWORK CYMRU

Drwy ein Cronfa Ddatblygu mae Ffilm Cymru yn troi syniadau am ffilmiau nodwedd yn realaeth. 'Rydym yn datblygu ffilmiau nodwedd o'r radd flaenaf, yn ffilmiau byw (live-action), ffilmiau dogfen a ffilmiau wedi eu hanimeiddio, pob un yn adrodd straeon byd-eang o safbwyntiau unigryw.

Ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru bu i ni ddsbarthu mwy na £300,000 eleni i ddatblygu 20 prosiect gan awduron, cyfarwyddwyr a chynhyrchwyr o Gymru, gan gynnwys:

- *Ironmistress*, ail ffilm yr awdur-gyfarwyddwr o Abertawe, Jamie Jones- ei ffilm nodwedd gyntaf oedd *Obey*. Mae'r ffilm yn adrodd stori'r aristocrat Saesneg o'r 19eg ganrif, Emma Seymour, gafodd berthynas gyda Dic Penderyn, stori sy'n gorffen mewn chwyldro, gwaed a merthyrdod.
- *Chuck Chuck Baby*, stori garu lesbiaidd gerddorol Janis Pugh, a ysbrydolwyd gan ei chyfnod yn gweithio mewn ffatri ieir yng Nghymru.
- *The Killing of Butterfly Joe*, addasiad sinematig o nofel Rhidian Brook am awdur Cymraeg aeth ar antur i America yng nghwmni'r gwerthwr ieir-bach-yr-haf carismatig, Joe Bosco.
- Dau brosiect gan gwmni newydd Elwen Rowlands a Hayley Manning, Little Door Productions: *Gone*, addasiad o gofiant llenyddol arwyddocaol Min Kym am gariad, colled ac achubiaeth, a *The Owl Service*, ffilm ffantasi i oedolion ifanc yn seiliedig ar un o fythau Cymru.

'Rydym o'r farn y dylai plant a'u teuluoedd fedru mwynhau amrywiaeth cyffrous o straeon sinematig. Dyna pam mae ein cronfa newydd, Hatch, a lansiwyd ym Mai 2018, yn datblygu ffilmiau i'r teulu sy'n adlewyrchu'r llyfrau, gemau, dramâu a barddoniaeth maent eisoes yn hoff ohonynt.

Dyma'r pedwar prosiect gan dalent o Gymru a gafodd bron i £85,000 rhyngddynt o gronfa Hatch:

- *Deian a Loli*, stori am efeilliaid, bachgen a merch, sy'n defnyddio'u pwerau hudol i ymdopi ag ysgariad eu rhieni. Yn seiliedig ar raglen deledu boblogaidd S4C, bydd y ffilm Gymraeg hon yn cael ei hysgrifennu gan Manon Wyn Jones a'i chynhyrchu gan Angharad Elen o Gwmni Da.
- *Demolition Dad*, stori am Jake a'i dad sy'n dymchwel adeiladau liw dydd, a'n reslo mewn 'spandex' liw nos. Yn seiliedig ar nofel Phil Earle, bydd y ffilm yn cael ei hysgrifennu gan Keiron Self a Giles New, a'i chynhyrchu gan Sarah Broughton.
- Yn seiliedig ar nofel Vivien Alcock, mae *The Monster Garden* yn adrodd hanes Frankie, merch ifanc sy'n creu anghenfil, ar ddamwain, drwy ddefnyddio sampl o feinwe o labordy ei thad sy'n wyddonydd. Ysgrifennir y ffilm gan HLS Duncan, ei chyfarwyddo gan Keir Burrows, a'i chynhyrchu gan Josephine Rose.
- Addasiad o raglen teledu o'r 80au, *Super Gran*, lle gwelir nain arbennig iawn yn defnyddio'i phwerau arallfydol i ymladd gwleidyddion drwg. Keri Collins fydd yn cyfarwyddo a Sarah Brocklehurst yn cynhyrchu.

Deian a Loli, sioe deledu plant Cwmni Da S4C addaswyd ar gyfer ffilm drwy ein cronfa Hatch



TALENT
DATBLYGU

TALENT CYNHYRCHU

Mae Cronfa Gynhyrchu Ffilm Cymru yn hyrwyddo taith ffilmiau nodwedd o'r sgrin.

Eleni bu i ni fuddsoddi bron i £800,000 o arian y Loteri Genedlaethol mewn wyth ffilm gan dalent Cymreig a ysbrydolwyd gan straeon a lleisiau o Gymru, gan gynnwys:

- *Dream Horse*, addasiad ffuglennol RAW Productions o'r ffilm ddogfen *Dark Horse*, a ariannwyd gan Ffilm Cymru. Toni Collette a Damian Lewis sy'n serennu yn y ffilm hon sy'n adrodd stori wir ac anhygoel y ceffyl rasio enwog a fagwyd ar randir yn y Coed Duon. Euros Lyn (*Y Llyfrgell / The Library Suicides*) yw'r cyfarwyddwr, Neil McKay yw'r awdur, a Katherine Butler a Tracy O'Riordan sy'n cynhyrchu. Bu i Ffilm Cymru ariannu'r ffilm ar y cyd â Film4, Ingenious Media a Llywodraeth Cymru, a Warner Bros UK sy'n ei rhyddhau yn y DU.
- *Six Minutes to Midnight*, ffilm arswyd a leolwyd yng nghyfnod yr Ail Ryfel Byd gan Mad as Birds Films o Landudno. Judi Dench ac Eddie Izzard sy'n serennu ynddi, ac fe'i ffilmwyd yn Llandudno, Caerfyrddin a Mhenarth yn ystod haf 2018, gyda'r cyfarwyddwr Andy Goddard (*Set Fire to the Stars*) wrth y llyw.
- *Rare Beasts*, y ffilm gyntaf i Billie Piper ei chyfarwyddo, a hi sydd hefyd yn serennu ynddi. Hi sy'n chwarae Mandy, mam, awdur a nihilydd yn y gomedi ramantus hynod yma. Cynhyrchydd y ffilm yw'r gwneuthurwr ffilm o Gymru, Vaughan Sivell (*Prevenge*), ac fe'i gwnaethpwyd ar gyfer Western Edge Pictures. Cafodd ei dangos am y tro cyntaf yn Fenis cyn cael ei dewis ar gyfer Gŵyl Ffilm Llundain y BFI.

Rhodddwyd arian cynhyrchu i ddwy ffilm ddogfen tra wahanol hefyd: *United Nations* - ffilm arbrofol y cyfarwyddwr Gideon Koppel (*Sleep Furiously*), a stori hyfryd am gôr meibion o Gymru, sef *Men Who Sing* gan Dylan Williams.

Rhodddwyd dyfarniadau hefyd i ffilm ddogfen ddyfeisgar Steve Sullivan, *Being Frank: The Chris Sievey Story*, ac i ddrama dyfod-i-oed Jon Jones, *Last Summer*. Galluogodd y gefnogaeth i'r ffilmiau gael eu rhyddhau'n theatrig, fel bod gynulleidfaedd ehangach yn cael cyfle i'w gweld mewn sinemâu ledled Cymru.

Toni Collette yn *Dream Horse*
gan Euros Lyn



Drama dod i oed
Last Summer gan Jon Jones

'Rydym yn credu'n gryf bod yn rhaid i ddiwydiant ffilm cynaliadwy Cymru fod yn hygyrch i bawb, beth bynnag fo cefndir neu brofiad y person hwnnw. Dyna pam mae ein rhaglen hyfforddiant rhad ac am ddim yn cynnig cyfleoedd i bobl nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant gael cyfle i gamu dros drothwy'r diwydiant ffilm. Dyna yw pwrpas ein rhaglen, Troed yn y Drws.

Mae Ffilm Cymru yn darganfod ac yn creu cyfleoedd lleol i ddysgu a datblygu sgiliau gwerthfawr fel gwaith coed, gwallt a cholur, a gwisgoedd ar set cynyrchiadau ffilm a theledu yng Nghymru. 'Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda chymdeithasau tai lleol i gynnig adnoddau a chefnogaeth ar gyfer e.e. trafndiaeth a gofal plant, gan sicrhau fod Troed yn y Drws yn addas i bawb, beth bynnag fo eu hamgylchiadau personol.

'Rydym eisoes wedi cynnig hyfforddiant i bobl ar gynyrchiadau ffilm a theledu fel Apostle, ffilm arswyd Gareth Evans ar gyfer Netflix; drama gomedi Severn Screen, Denmark; a drama dditectif S4C / BBC Cymru Wales, Craith / Hidden, pan fu i ni gynnal ein rhaglen Troed yn y Drws gyntaf erioed yn yr iaith Gymraeg yn Ionawr 2019. Cafodd tri cyfranogwr arweiniad arbenigol yn Bad Wolf Studios cyn cael wythnos o hyfforddiant yng Ngorllewin Cymru ar set Vox Pictures wrth iddynt saethu'r ddrama lwyddiannus Un Bore Mercher / Keeping Faith, gyda'r seren Eve Myles.

Yn dilyn hyn cynhaliodd Ffilm Cymru eu rhaglen Troed yn y Drws fwyaf hyd yma, gan roi cyfle i 35 o bobl o bob cwr o Gymru dderbyn hyfforddiant ar set ffilm fawr newydd, Dream Horse. Saethpwyd Dream Horse, gydag Euros Lyn yn cyfarwyddo, yn ystod gwanwyn 2019 yn ac o amgylch Blaenafon, gan roi cyfleoedd euraidd i gyfranogwyr o bob oed ddatblygu eu gyrfaedd creadigol.

Bu i ni hefyd ddarparu hyfforddiant ymarferol i wneuthurwyr ffilm newydd gan gynnal digwyddiadau fel:

- Ein 'Filmmakers' Survival Guide' gyda BFI NETWORK Wales: diwrnod o baneli, o drafodaethau a sesiynau diddorol yn canolbwyntio ar rannu gwybodaeth ymarferol a hanfodol, sy'n angenrheidiol i bob gwneuthurwr ffilm er mwyn cychwyn ar yrfa gynaliadwy yn y diwydiant;
- Dosbarth meistr ar adrodd stori gan yr arbenigwr datblygu sgript Kate Leys, gyda'r gwneuthurwyr ffilm yn cael eu cefnogi drwy gronfa Beacons y BFI NETWORK Cymru;
- Ein partneriaeth â Theatr Hijinx, gan hyfforddi gwneuthurwyr ffilm o Gymru ar sut i weithio orau gyda chast a chriw niwroamrywiaethol.



Efa Dyfan ac Elinor Mahoney ar set *Un Bore Mercher* ar gyfer ein Troed yn y Drws

HYFFORDDIANT



MYNEDIAD I GYNULLEIDFAOEDD

'Rydym ni o'r farn y dylai pawb yng Nghymru gael mynediad i brofiadau sinematig cyffrous ac ysbrydoledig. Dyna pam 'rydym yn darparu arian a chynghor i sinemâu, i wyliau ffilm ac i ddangosiadau unigol mewn lleoliadau cymunedol ym mhob cwr o'r wlad.

Gan ddsbarthu arian Cyngor Celfyddydau Cymru a Loteri Genedlaethol y BFI, bu i Ffilm Cymru eleni roi 23 o ddyfarniadau, cyfanswm o £170,000 o'r Gronfa Mynediad Cynulleidfa, i brosiectau a gyrrhaeddodd bron i 320,000 o bobl ledled Cymru.

Tra'n bod yn parhau i gefnogi gwyliau fel Gŵyl Arswyd Abertoir, Gŵyl Fach Ffilmiau Caerdydd, Gŵyl Ffilm LGBT+ Gwobr Iris, Gŵyl Wicked Wales, a Gŵyl Ffilm Cymru a'r Byd yn Un er mwyn eu cynorthwyo i gyrraedd rhagor o gynulleidfaedd a gwella eu cynladwyedd busnes, bu i ni hefyd roi arian i ddwy ŵyl newydd:

- Gŵyl Kotatsu, oedd yn dathlu gwaith animeiddio aruchel o Siapan ym Medi 2018. Cynhaliwyd lluo o ddangosiadau, gweithdai a chroesawyd gwesteion arbennig yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth a Chanolfan y Celfyddydau Chapter Caerdydd;
- FOCUS Wales yn Wrecsam, gŵyl ryngwladol sy'n rhoi llwyfan i gerddoriaeth o Gymru, ac am y tro cyntaf eleni ychwanegwyd ffilm i'r digwyddiadau, gan gynnwys dangosiadau o ffilmiau, sgysiau a gwobr am ffilm fer.

Fel rhan o'n hymrwymiad i ddarparu gwell mynediad at ffilm mewn ardaloedd ac i gynulleidfaedd nad ydynt yn derbyn y gwasanaeth gorau ar hyn o bryd, bu i hefyd roi arian i dri phrosiect cymunedol ysbrydoledig gan ddod â sinema i leoliadau heb fod yn draddodiadol:

- Mae Gentle/Radical yn cynnal dangosiadau ffilm mewn lleoliadau cymunedol yng Nghaerdydd sy'n hygyrch i bawb, gan gynnwys dangosiadau yn ystod y dydd i fenywod BAME, dangosiadau sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc, a digwyddiadau i'r henoed. Mae'r sefydliad hefyd yn darparu bwyd a chyfleusterau gofal plant, ac yn annog trafodaethau gyda siaradwyr gwadd.
- Yn dilyn Ffilm yn Afan, cynllun sinema symudol arloesol Ffilm Cymru, erbyn hyn mae aelodau yn cynnal eu sinemâu 'pop-up' eu hunain yn Llyfrgell Gymunedol Cymmer Afan ac yn Neuadd Gymunedol y Glowyr Gwynfi. Nid oedd ffilmiau wedi eu dangos yn yr ardal hon ers 50 mlynedd ac erbyn hyn mae ffilm yn cael ei dangos yno bob mis!
- Mae FLIX, sinema 'pop-up' Cymdeithasau Tai Cymunedol Caerdydd yn darparu dangosiadau ffilm am ddim i'w tenantiaid yn ardal Tre-biwt Caerdydd, yn ogystal ag yn ymwneud â chymunedau eraill yng Nghaerdydd sy'n ddifreintiedig o ran yr economi neu sydd wedi eu hynysu.

Bu i'n Cronfa Mynediad Cynulleidfa hefyd gefnogi partneriaeth rhwng Race Council Cymru a Watch Africa Cymru a gyflwynodd ddangosiad arbennig o *I Am Not a Witch*, ffilm Rungano Nyoniho a enillodd wobr BAFTA, er mwyn dathlu Mis Hanes Pobl Dduon Cymru. Ymunodd Nyoni â'r digwyddiad ar gyfer sesiwn C&A, gyda Vaughan Gethin AS yn llywyddu yn adeilad y Pierhead Llywodraeth Cymru.

FFILM ADDYSG

Mae Ffilm Cymru yn ariannu darparwyr addysg ffilm i gysylltu pobl o bob oed a gallu â chyfleoedd dysgu creadigol.

Eleni bu i ni roi mwy na £38,000 o arian Loteri Genedlaethol y BFI i brosiectau addysg ffilm, gan gynnwys:

- Ail ran 'Ein Stori Ni!', prosiect gwobrwyol CISP Multimedia, sy'n rhoi cyfle i blant ysgolion cynradd ym mhob cwr o Dde Cymru gael profiad ymarferol o greu byrddau stori, saethu a golygu eu ffilmiau eu hunain. 'Roedd athrawon a chynorthwyrwyr dysgu hefyd yn cael cyfle i ddarganfod sut mae posib defnyddio ffilm a'r cyfryngau yn yr ystafell ddosbarth;
- Rhaglen lwyddiannus Gŵyl Ffilm LGBT+ Gwobr Iris sy'n ymwneud ag addysg ffilm ac estyn allan at gymdeithasau, rhaglen sy'n caniatáu pobl ifanc i archwilio materion sy'n berthnasol i LGBT+ ac i adrodd eu straeon eu hunain drwy ffilm;
- Ein partneriaeth gyda'r elusen iechyd meddwl, Hafal, ble fyddwn yn gweithio gyda phobl ifanc 15-25 oed i archwilio sut mae materion iechyd meddwl yn cael eu cynrychioli ar ffilm ac i herio'r stereoteip. Bydd y prosiect hefyd yn rhoi cyfle i'r cyfranogwyr fod yn greadigol ac i rannu eu straeon drwy wneud eu ffilmiau eu hunain.

Rhoddwyd nawdd hefyd i gefnogi cyfres o weithdai addysg yn yr iaith Gymraeg yng Ngŵyl Ffilm PICS ar gyfer Pobl Ifanc yng Nghaernarfon; prosiect Theatr Gwaun, Re:Action, oedd yn darparu gofod pwrpasol i bobl ifanc o Sir Benfro wneud ffilmiau gyda thechnoleg hygyrch; a Chlwb Ffilm Menywod Cymru a'r Byd yn Un i gynnal eu gweithdai gwneud ffilm, Ymuno, gyda phobl ifanc yng Nghasnewydd ac Abertawe; a gweithdai animeiddio gydag oedolion ifanc ag anableddau dysgu, mewn partneriaeth â Mencap Ceredigion.

Yn y cyfamser bu i brosiectau a ariannwyd yn 2017-18, ond a gynhaliwyd eleni, ymgysylltu â 774 o gyfranogwyr drwy addysg ffilm, gyda 58% yn arddel eu bod yn fenywod, a 57% o'r ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf blaenorol.

HORIZONS (BFI NETWORK CYMRU)

CEISYDD	PROSIECT	DYFARNIAD
Peter Darney	Clapham Trashbag	£4,000.00
Claire Fowler	Datblygiad Proffesiynol Parhaus	£500.00
Dylan Goch	The Welsh Revolutionary	£6,000.00
Crystal Jeans	Vegetarian Tigers of Paradise	£5,000.00
Cynan Jones	By Still Waters	£6,500.00
Jamie Jones	Obey	£4,000.00
Ila Mehrotra	Datblygiad Proffesiynol Parhaus	£2,500.00
Hardey Speight	Beasts of Burden	£5,000.00
Tina Pasotra	Datblygiad Proffesiynol Parhaus	£1,500.00
Ozgur Uyanik	Holy Men	£9,990.00
CYFANSWM		£44,990.00

BEACONS (BFI NETWORK CYMRU)

CEISYDD	PROSIECT	DYFARNIAD
Baich (Ychwanegol)	Mared Swain	£5,000.00
Dirt Ash Meat (Ychwanegol)	Sion Thomas	£300.00
Dolly (Datblygu)	Ed Casey	£1,000.00
Father of the Bride (Datblygu)	Rhys Marc Jones	£1,000.00
Father of the Bride	Rhys Marc Jones	£15,000.00
Ffantasmagoria (Datblygu)	Hannah Jarman	£1,000.00
Jelly (Datblygu)	Samantha O'Rourke	£1,000.00
Jelly	Samantha O'Rourke	£14,000.00
Leaf Boat (Datblygu)	Efa Blossie Mason	£1,000.00
Leaf Boat	Efa Blossie Mason	£15,000.00
Men I Trust (Datblygu)	Tom Chetwode-Barton	£1,000.00
Mist (Datblygu)	Zillah Bowes	£1,000.00
Mist	Zillah Bowes	£14,500.00
Motion Sickness (Datblygu)	Nan Moore	£1,000.00
Motion Sickness	Nan Moore	£15,000.00
The Pit (Datblygu)	Leyla Pope	£1,000.00
Sally Leapt out of the Window Last Night (Datblygu)	Tracy Spottiswoode	£1,000.00
Sally Leapt out of the Window Last Night	Tracy Spottiswoode	£15,000.00
Takeshi (Datblygu)	Griff Lynch	£1,000.00
Takeshi	Griff Lynch	£11,000.00
CYFANSWM		£115,800.00

DATBLYGU

FFILM	CEISYDD	DYFARNIAD
A Pub is Bombed	Awen Media	£15,000.00
Ava	Altered Image Films	£20,000.00
The Boy		£11,500.00
Chuck Chuck Baby	Artemisia Films	£15,000.00
Deian a Loli	Cwmni Da	£20,000.00
Demolition Dad	Martha Stone Productions	£20,000.00
Gone	Little Door Productions	£13,688.00
Goose Green	DearHeart Productions	£15,000.00
Heart of Darkness	Gritty Realism	£10,000.00
I'm At Home Here	Sarah Brocklehurst	£7,200.00
Ironmistress	Beyond Fiction	£17,000.00
Mae Gen I Gariad	Cwmni Da	£6,000.00
Monster	Frames of Reference Films	£15,000.00
Monster Garden	Bandit Country	£24,999.00
Spy on the Roof of the World	Living Doll Ltd	£10,000.00
Supergran	City Pictures	£20,000.00
The Breakaway	Revolution Films	£15,000.00
The Killing of Butterfly Joe	Rhidian Brook	£24,999.00
The Owl Service	Little Door Productions	£14,000.00
The Prizefighter	Camelot Films	£15,000.00
UN	Brightstar	£7,450.00
CYNFANSWM		£316,836.00

CYNHYRCHU

FFILM	CEISYDD	DYFARNIAD
Being Frank	A Piece of Cardboard Productions	£15,000.00
Concrete Plans	Perfectmotion Ltd	£100,000.00
Concrete Plans	Perfectmotion Ltd	£23,000.00
Dream Horse	RAW	£200,000.00
Last Summer	Flickerbook Features	£10,000.00
Men Who Sing	BACKFLIPMEDIA	£95,000.00
Rare Beasts	Western Edge Pictures	£49,999.00
Six Minutes to Midnight	Mad As Birds Films	£200,000.00
UN	Brightstar	£100,000.00
CYNFANSWM		£792,999.00

CYMORTH I GWMNIAU


CWMNI	DYFARNIAD
Awen Media	£6,000.00
Little Door Productions	£47,500.00
Perfectmotion Ltd	£6,000.00
Red & Black TV	£35,000.00
Severn Screen Ltd	£35,000.00
Standoff Pictures Ltd	£6,000.00
Vox Pictures	£50,000.00
CYNFANSWM	£185,500.00

MYNEDIAD CYNULLEIDFA

PROSIECT	DYFARNIAD
Abertoir Festival 2018	£10,000.00
Aberystwyth Arts Centre	£16,000.00
Audience Access Magnifier (Internal)	£1,000.00
Black History Month Event, Race Council Wales	£2,500.00
Cardiff Mini Film Festival, Bulldozer Films Ltd	£2,500.00
Cellb	£4,000.00
Cymmer Afan Community Library and Gwynfi Miners Community Hall	£4,656.00
Flix Cinema, Cardiff Community Housing Association	£7,000.00
FOCUS Wales	£2,250.00
Gentle/Radical	£7,286.00
Iris Prize Festival 2018	£12,500.00
Kotatsu Japanese Animation Festival	£3,530.00
Memo Arts Centre, Barry	£7,573.00
Neuadd Ogwen, Bethesda	£7,000.00
PICS & Galeri, Caernarfon	£9,770.00
Pontardawe Arts Centre	£6,500.00
Pontio Arts Centre, Bangor	£10,000.00
Taliesin Arts Centre, Swansea	£8,000.00
The Welfare, Ystradgynlais	£2,685.00
Theatr Gwaun, Fishguard	£5,000.00
Theatr Clwyd, Mold	£14,500.00
Wicked Wales Film Festival	£14,750.00
WOW Festival 2019	£11,000.00
CYNFANSWM	£170,000.00

ADDYSG

PROSIECT	CEISYDD	DYFARNIAD
Ein Bro Ni	Into Film Cymru	£3,500.00
Ein Stori Ni 2!	CISP Multimedia	£7,000.00
Iris Education	Iris Prize	£9,143.00
Mental Health Awareness Project	Hafal	£10,000.00
Neurodivergent Training	Hijinx	£1,279.50
PICS Education	Galeri, Caernarfon	£6,005.00
Re:Action	Theatr Gwaun	£6,765.00
Ymuno Ffilm Pilot	WOW Wales One World Festival	£7,900.00
CYNFANSWM		£51,592.50



DYFARNIADAU CYLLIDO

	2019 (£)	2018 (£)
Incwm	2,204,779	2,026,600
Treuliau Uniongyrchol	(2,337,113)	(1,311,926)
Gwarged Gros	(132,334)	714,674
Treuliau Gweithredu	(504,293)	(554,878)
Diffyg Ariannol Gweithredu	(636,627)	159,796
Llog Sy'n Dderbyniadwy	2,063	609
Diffyg ariannol ar weithgareddau arferol cyn trethiant	(634,564)	160,405
Treth ar warged ar weithgareddau arferol	(412)	(116)
Diffyg ariannol a gadwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol	(634,976)	160,289
Gwarged a gadwyd ac a ddygir ymlaen	1,140,950	980,661
Gwarged a gadwyd ac a garir ymlaen	505,974	1,140,950

Mantolen ar 31 Mawrth 2018

	2019 (£)	2018 (£)
Asedau Sefydlog		
Asedau Diriaethol	7,660	10,929
Asedau Cyfredol		
Stociau	1,650	1,650
Dyledwyr	521,599	1,294,606
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	1,941,075	1,251,147
	2,464,324	2,547,403
Credydwyr		
Symiau'n ddyledus o fewn un flwyddyn	(1,966,010)	(1,417,382)
Asedau cyfredol net	498,314	1,130,021
Asedau Net	505,974	1,140,950
Cronfeydd wrth gefn		
Incwm a Gwariant	1,140,950	325,398
Cronfeydd eraill wrth gefn	(634,976)	815,552
Cronfeydd yr aelodau	505,974	1,140,950

CRYNODEB ARIANNOL





ffilm

CYMRU WALES

Prif Weithredwr	PAULINE BURT
Cynorthwy-ydd Gweithredol	SIÔN EIRUG
Pennaeth Talent	KIMBERLEY WARNER
Swyddog Gweithredol Cynhyrchu	BIZZY DAY
Swyddog Gweithredol Datblygu	CELI FOWLER
Swyddog Gweithredol Datblygu	GWENFAIR HAWKINS
Swyddog Cyswllt Talent	HAYLEY LAU
Rheollwr Cynulleidfa ac Addysg	NICOLA MUNDAY
Cydgysylltydd Cynulleidfa ac Addysg	NATASHA WILSON
Rheolwr Rhwydwaith Talent Cymru BFI	ALICE WHITTEMORE
Rheolwr Cyfathrebu a Digwyddiadau	BEN HOOPER
Rheolwr Prosiect Troed yn y Drws	FAYE HANNAH
Cydllynydd Prosiect Troed yn y Drws	CAROLINE LANE
Rheolwr Cyllid	GAIL REED
Gweinyddwr Cyllid	PAULINE WALKER

www.ffilmcymruwales.com

UNED 6
TRAMSHED TECH
STRYD PENDYRIS
CAERDYDD
CF11 6BH

+44 (0)2921 679369
enquiries@ffilmcymruwales.com

Maxine Peake in bydd stori gothig
Will McGregor, *Gwen*

Ffilm

CYMRU WALES

